Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol – *Seinio'r larwm: ar lywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Gorffenaf 2024

www.gov.wales

***Casgliad 1***

*Mae'r ddadl ynghylch penodiad y Prif Swyddog Tân Dros Dro ar gyfer De Cymru o bosibl wedi atgyfnerthu canfyddiadau negyddol ymhlith uwch reolwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae'n hanfodol y gwneir pob ymdrech i adfer hyder yn yr ymyriad drwy ymgysylltu'n ystyrlon â staff ym mhob agwedd ac ar bob cam o'r broses i gyflawni newid diwylliannol.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Derbyn** Rydym wedi pwysleisio pwysigrwydd hyn i'r Comisiynwyr, sydd wedi ymrwymo i ymgysylltu'n effeithiol â'r holl staff drwy gydol eu hamser yn eu swyddi. Mae hyn wedi cynnwys ailwampio cyfathrebu mewnol o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) a rhaglen o ymweliadau personol gan Gomisiynwyr i orsafoedd tân a lleoliadau eraill.

***Argymhelliad 1***

*Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gyda'r Comisiynwyr Tân (a'r gwasanaethau eraill yn y Gogledd a'r Canolbarth a'r Gorllewin) i ddod ag unigolion newydd sydd â sgiliau a phrofiadau o'r tu allan i'r sector a, lle bo'n ddymunol, y tu hwnt i Gymru i swyddi allweddol, yn enwedig swyddi sy'n cael yr effaith fwyaf o ran diwylliant sefydliadol ehangach. Er mwyn cyflawni'r argymhelliad hwn, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Comisiynwyr Tân i:*

- *Ystyried sut i ddenu ymgeiswyr o ystod fwy amrywiol o gefndiroedd gyda ffocws penodol ar ddenu arweinwyr benywaidd i rolau uwch reoli.*
- *Ystyried defnyddio'r broses o recriwtio Prif Swyddog Tân newydd ar gyfer De Cymru fel cyfle o bosibl i recriwtio rhywun o'r tu allan i'r sector i'r rôl honno.*
- *Sicrhau bod staff o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cymryd rhan ystyrlon mewn ysbryd o bartneriaeth gymdeithasol yn y broses recriwtio.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Derbyn** Fel uchod, rydym wedi gweithio gyda'r Comisiynwyr ar hyn a byddwn yn parhau i wneud hynny. Mae'r Comisiynwyr yn llwyr gefnogi'r angen i annog amrywiaeth o ymgeiswyr ac i ymgysylltu â staff yn y broses ddethol.

Daeth y cyfnod ar gyfer ymgeisio am y swydd barhaol fel Prif Swyddog Tân / Prif Swyddog GTADC i ben ar 27 Mai. Hysbysebwyd y rôl amgen, sef Prif Swyddog, â'r nod penodol o ddenu ymgeiswyr o gefndiroedd nad ydynt yn ymwneud ag ymladd tân. Cyhoeddodd y Comisiynwyr benodiad yr Is-Farsial Awyr Dr Fin Monahan yn Brif Swyddog Tân parhaol ar 10 Gorffennaf.

Roedd yr holl ymgeiswyr ar y rhestr fer ar gyfer y swydd hon yn destun ymarfer ymgysylltu yn cynnwys paneli o aelodau staff a chynrychiolwyr undeb, fel rhan o'r broses ddethol. Defnyddiodd y Comisiynwyr yr un dull wrth benodi'r Cyfarwyddwr Trawsnewid ym mis Ebrill.

Byddwn hefyd yn ymgysylltu â'r Awdurdodau Tân ac Achub eraill i sicrhau bod y dull hwn yn cael ei ddefnyddio ledled Cymru.

***Argymhelliad 2***

*Mewn perthynas ag Adolygiadau o Ddiwylliant Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru, dylai Llywodraeth Cymru alinio'r Cylch Gorchwyl mor agos â phosibl â pharamedrau Adolygiad Morris i hwyluso cymharu unrhyw broblemau posibl ym mhob sefydliad. Byddem yn gobeithio y gellir gweithredu'r argymhelliad hwn ar unwaith, ac y gellir cwblhau'r Adolygiadau mewn modd rhesymol amserol.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Derbyn mewn egwyddor.** Rydym wedi pwysleisio pwysigrwydd yr adolygiadau o ddiwylliant a gwerthoedd yng Ngwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn drylwyr ac yn annibynnol ac yn cael eu cynnal gan yr un darparwr, er mwyn hwyluso cymariaethau.

Mae Gwasanaethau'r Canolbarth a'r Gorllewin, a Gogledd Cymru yn pennu cylch gorchwyl yr adolygiadau hynny mewn trafodaeth â ni, a byddwn yn parhau i weithio gyda nhw i sicrhau eu bod yn cyflwyno sicrwydd llawn a chadarn.  Rydym yn disgwyl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau yn haf 2025.

Mae cwmpas y ddau adolygiad yn ystyried gwaith Ms Morris CB ar gyfer Gwasanaeth De Cymru ond nid yw'n adlewyrchu ei chylch gorchwyl hi yn union. Er enghraifft, maent yn cwmpasu cyfnod o 3 blynedd yn hytrach na 7 mlynedd.  Mae hyn oherwydd yr ymddengys fod y ddau sefydliad wedi gwneud peth cynnydd ar eu liwt eu hunain eisoes, yn wahanol i wasanaeth De Cymru.

***Argymhelliad 3***

*Dylai Llywodraeth Cymru egluro'n glir ei disgwyliadau y bydd aelodau presennol o staff neu gyn-aelodau staff sy'n gwneud cwynion yn ystod y cyfnod hwn yn unrhyw un o'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn cael eu cefnogi'n ddigonol a'u trin yn deg yn unol ag ymarfer AD sefydledig. Er mwyn rhoi'r sicrwydd hwn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes angen arbenigedd a/neu adnoddau ychwanegol i gefnogi'r swyddogaethau AD sy'n angenrheidiol yn ystod y misoedd nesaf. Dylid gweithredu'r argymhelliad hwn ar unwaith, a darparu diweddariad erbyn mis Tachwedd 2024.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Derbyn** Mae pwysigrwydd ymchwilio i gwynion hanesyddol wedi cael ei godi a'i dderbyn gan y tri GTA, yn ogystal â'r angen i ddarparu cefnogaeth briodol i'r sawl sy'n eu codi gan eu cyflogwr, eu hundeb neu rywle arall.

Ni wnaed unrhyw gais i fanteisio ar arbenigedd Llywodraeth Cymru yn y maes hwn gan y Gwasanaethau Tân hyd yma ond pe bai cais o'r fath yn dod i law byddem yn ei ystyried yn gadarnhaol.

***Casgliad 2***

*Dylai Llywodraeth Cymru egluro rôl y CFRAI fel ei bod yn fwy ymatebol i'r holl faterion sy'n effeithio ar y gwasanaeth tân ac achub.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Derbyn mewn egwyddor.** Mae rôl ffurfiol a statudol y CFRAI eisoes yn cynnwys materion diwylliannol a phob mater arall sy'n ymwneud â'r GTAau. Y ffaith yn syml yw bod ei adolygiadau manwl wedi canolbwyntio hyd yma ar faterion gweithredol. Mae'r CFRAI hefyd wedi ei gwneud yn ofynnol i'r GTAau ddarparu crynodebau rheolaidd iddo o'r holl achosion camymddwyn, a'i hysbysu ar unwaith am achosion o gamymddwyn difrifol a/neu achosion sy'n ymwneud â staff uwch.

Gellir ystyried y ffordd orau o roi holl gwmpas y rôl honno ar waith mewn system arolygu ddiwygiedig ynghyd â set newydd o drefniadau llywodraethu.

***Casgliad 3***

*Rydym yn cytuno bod gwendidau yn y trefniadau llywodraethu ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi cyfrannu at y methiannau a nodwyd yn Adolygiad Morris ac, o ganlyniad, y dylai newidiadau i'r trefniadau llywodraethu fod yn rhan o ymateb Llywodraeth Cymru.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Derbyn.** Mae gwaith i ddatblygu trefniadau llywodraethu newydd yn y sector eisoes ar y gweill, gyda rhanddeiliaid allweddol yn cymryd rhan.

***Casgliad 4***

*Byddem yn croesawu eglurhad gan Lywodraeth Cymru ar sut y mae'n bwriadu cysoni'r pwysau a allai fod yn cystadlu â'i gilydd o ran yr angen i ddiwygio ar y naill law, a'r diffyg consensws neu'r posibilrwydd o gyfaddawd ar rai agweddau ar y diwygiadau hynny ar y llaw arall.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Derbyn** Mae consensws eang yn dod i'r amlwg o ran yr angen i ddiwygio llywodraethu. Adlewyrchwyd hyn mewn tystiolaeth a roddodd Cadeiryddion Gwasanaethau'r Gogledd, a'r Canolbarth a'r Gorllewin i'r Pwyllgor ac yn y drafodaeth ddiweddar rhwng Ysgrifennydd y Cabinet ac arweinwyr pob awdurdod lleol yn ardal Gwasanaeth De Cymru. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol i adeiladu ar hynny a datblygu model effeithiol.

***Argymhelliad 4***

*Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru'r Fframwaith Cenedlaethol ar unwaith er mwyn ystyried digwyddiadau diweddar a chanlyniadau sawl adolygiad. Fel rhan o'r broses, dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:*

- *Gosod yr amserlen ar gyfer cytuno ar Fframwaith Cenedlaethol newydd;*

- *Ystyried sefydlu cyfres o ddangosyddion perfformiad a safonau perfformiad i gyd-fynd â'r Fframwaith; a*
- *Mynd ati'n rhagweithiol i osod copïau o adroddiadau gweithredu'r dyfodol gerbron y Senedd.*

*Dylai'r Fframwaith a'r dangosyddion perfformiad newydd fod yn eu lle erbyn mis Mai 2025 fan bellaf.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Derbyn mewn egwyddor.** Byddwn yn datblygu ac yn cyflwyno Fframwaith Cenedlaethol newydd ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub. Efallai y bydd heriau o ran cydymffurfio â'r dyddiad cau a awgrymir gan y Pwyllgor oherwydd y prosesau ymgynghorol a deddfwriaethol sy'n ofynnol, ac oherwydd bod yn rhaid cyflwyno dangosyddion perfformiad ar ddechrau blwyddyn ariannol, ond byddwn yn ceisio cwblhau'r gwaith cyn gynted â phosibl.

***Casgliad 5***

*Dylid rhoi ystyriaeth bellach i ddatrys ymarferoldeb sefydlu trefn arolygu yng Nghymru ochr yn ochr â diwygio trefniadau llywodraethu yn ehangach.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Derbyn** Mae archwilio ac arolygu yn elfennau pwysig o unrhyw fecanwaith llywodraethu ac atebolrwydd effeithiol ac mae hyn yn rhywbeth a fydd yn cael sylw yn y gwaith diwygio llywodraethiant, a gaiff ei lywio gan adroddiad y Pwyllgor ac adolygiad Archwilio Cymru o lywodraethu GTA.

***Casgliad 6***

*Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei barn ynghylch a fyddai diffiniad ehangach o archwilio yn canfod methiannau diwylliannol o'r math a ganfuwyd yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac, os felly, sut y byddai'n gwneud hynny, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Derbyn mewn egwyddor.** Bydd yr angen ehangach am sicrwydd cadarn am ddiwylliant a gwerthoedd yn y GTA yn cael ei ystyried yn rhan o'r rhaglen ehangach o ddiwygio llywodraethiant.

***Casgliad 7***

*Rydym yn croesawu'r adolygiad o'r trefniadau llywodraethu sy'n cael ei gynnal gan Archwilio Cymru ac edrychwn ymlaen at ystyried ei ganfyddiadau.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried canfyddiadau adroddiad Archwilio Cymru yn llawn.

***Argymhelliad 5***

*Dylai Llywodraeth Cymru wella capasiti aelodau'r Awdurdodau Tân ac Achub i ddwyn Gwasanaethau Tân ac Achub i gyfrif drwy:*

- *leihau maint cyffredinol aelodaeth yr Awdurdodau;*
- *ystyried cynigion i dynnu aelodau'r Awdurdodau o gabinetau awdurdodau lleol;*
- *edrych ar gynigion i wahanu'n ffurfiol swyddogaethau gweithredol yr awdurdod oddi wrth swyddogaethau craffu'r Cadeirydd a'r Bwrdd;*
- *annog cyfethol aelodau sydd â gwybodaeth ac arbenigedd allanol ym meysydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i bob Awdurdod; a*
- *darparu cyngor a hyfforddiant penodol i aelodau'r Awdurdodau ar oblygiadau Adolygiad Morris yn y tymor byr a chynnal adolygiad cyflym o'r hyfforddiant a'r trefniadau sefydlu a ddarperir i aelodau'r Awdurdodau gyda'r bwriad o wella'r ddarpariaeth a gwneud hyfforddiant yn y dyfodol yn orfodol.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Derbyn** Mae llawer o bwyntiau penodol y Pwyllgor eisoes wedi'u codi mewn trafodaethau gyda CLILC ac eraill ar ddiwygio llywodraethu. Bydd y rhain i gyd yn ystyriaethau pwysig wrth fwrw ymlaen â'r adolygiad llywodraethu.

***Argymhelliad 6***

*Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar unwaith i archwilio opsiynau ar gyfer diwygio mwy radical i strwythur a darpariaeth gwasanaethau tân ac achub yn yr hirdymor. Dylai hyn gynnwys:*

- *Cychwyn ar y broses o archwilio beth ddylai swyddogaethau craidd gwasanaethau tân ac achub yn y dyfodol fod yn 2035 neu yn 2040;*
- *Archwilio manteision ac anfanteision creu un gwasanaeth tân ac achub i Gymru gyfan; a*

*Datblygu safbwynt polisi tymor hwy (yn ddelfrydol ar ffurf Papur Gwyn) erbyn diwedd 2025 fel y gellir ei ystyried cyn etholiadau nesaf y Senedd a ddisgwylir yn 2026.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Derbyn** Ar wahân i'r materion a nodwyd gan y Pwyllgor, gallai datganiad o'r fath fynd i'r afael yn ddefnyddiol hefyd â heriau strategol eraill fel cynaliadwyedd gwasanaethau gwledig, yr argyfwng hinsawdd a chanfyddiadau ail gam Ymchwiliad Tŵr Grenfell. Byddai ffurf datganiad o'r fath yn dibynnu ar y cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â materion sy'n broblemau hirdymor a chymhleth rhwng nawr a diwedd y flwyddyn nesaf.